Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Datganiad i'r Wasg
I'w ryddhau ar unwaith
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

9fed Tachwedd 2019

Mae llymder wedi gadael ein pobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn perygl difrifol

Mae undeb addysg fwyaf Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi hawliau pob plentyn i addysg gyfartal a ariennir yn llawn. Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn dweud bod angen cynnydd mewn gwariant ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), cwnsela teulu a'r holl wasanaethau ymyrraeth ieuenctid.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Mae'n hollol iawn bod ein haelodau'n tynnu sylw at effaith iechyd meddwl ac anghenion cymhleth pobl ifanc. Mae mynediad cyfartal i addysg yn ganolog i waith yr Undeb Addysg Cenedlaethol."

"Mae iechyd meddwl ac anghenion ychwanegol pobl ifanc yn holl bwysig, a byddwn yn parhau i godi'r materion hyn gyda Llywodraeth Cymru.

"Gan fod gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wedi'i gohirio am flwyddyn, byddwn yn cyfarfod â'r Gweinidog ac yn amlinellu ffyrdd o ymgorffori mynediad cyfartal i addysg i bob plentyn."

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

Cynnig 5. Argyfwng Iechyd Meddwl Ieuenctid

Mae Cynhadledd Cymru yn gynyddol bryderus bod llymder ariannol yn cael effaith andwyol ar gyllid ysgolion, gwasanaethau ymyrraeth gynnar, cwnsela teulu a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) gan adael ein pobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn perygl difrifol.

Ysgrifennodd Cyd-ysgrifennydd Cyffredinol yr NEU bo:

“pobl ifanc heddiw yn wynebu pwysau aruthrol a chynyddol yn eu bywydau beunyddiol sy'n cael effaith andwyol ar eu lles meddyliol. Mae storm berffaith o doriadau i wasanaethau cymorth awdurdodau lleol, toriadau i gyllid ysgolion, mwy o bwysau arholiadau a chulhau'r cwricwlwm wedi creu sefyllfa o argyfwng.”

Mewn arolwg diweddar o staff addysg sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar hyd at golegau'r Chweched Dosbarth canfuwyd bod mwy na hanner materion iechyd meddwl disgyblion yn arwain at hunan-niweidio, mae 48% o ddisgyblion yn cael pyliau o banig a 45% ag anhwylderau bwyta.

Mae Cynhadledd Cymru yn annog yr Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i lobïo'r llywodraeth i sicrhau bod cynnydd mewn gwariant ar CAMHS, cwnsela teulu a'r holl wasanaethau ymyrraeth ieuenctid.

Mae Cynhadledd Cymru yn credu mewn cydraddoldeb gan gynnwys hawliau pob person ifanc i dderbyn addysg gwbl gefnogol ac wedi'i hariannu sy'n diwallu eu hanghenion.

Mae Cynhadledd Cymru yn ymwybodol o’r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r cyfrifoldebau ychwanegol y mae'r Ddeddf yn eu gosod ar athrawon ac ysgolion.

Mae Cynhadledd Cymru yn cydnabod y deunyddiau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru fel Anhwylder Sbectrwm Awtistig Cymru i wella sgiliau athrawon. Fodd bynnag, mae'r Gynhadledd hefyd yn cydnabod bod mwy o athrawon yn dod ar draws nifer cynyddol o ddisgyblion ag anghenion ychwanegol cymhleth ac efallai na fyddent wedi cael hyfforddiant digonol i gefnogi'r bobl ifanc hyn. Mae hyn, ynghyd â diffyg cyllid ac yn aml leihad mewn staff cymorth yn yr ystafell ddosbarth yn golygu nad oes gan y bobl ifanc hyn bob amser fynediad at addysg lawn ac ystyrlon.

Mae Cynhadledd Cymru hefyd yn cydnabod y gall Cymru ddysgu o arfer dda gwledydd eraill fel Gwlad yr Iâ, Gwlad Pwyl a Latfia, lle mae ymwybyddiaeth athrawon o anghenion cymhleth a’u nodweddion yn uwch. Gall ysgolion yno gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd mewn ffordd fwy cyfannol, o ddiagnosis cychwynnol i weithredu addysg lawn a chyfartal.
Mae Cynhadledd Cymru wedi penderfynu:

1. Cefnogi hawliau pob plentyn i addysg gyfartal a ariennir yn llawn.

2. Parhau i ymgyrchu dros gyllid ar gyfer ysgolion ac asiantaethau cymorth.

3. Ymgyrchu am gysylltiadau agosach â CAMHS, i weithio mewn ffordd amlddisgyblaethol gyda meddygon teulu ac i sicrhau mwy o hygyrchedd i'r gwasanaeth seicolegydd addysg.

4. Ymgyrchu am fwy o arian i Awdurdodau Lleol i gynyddu'r ddarpariaeth o Gyfleusterau Addysgu Arbenigol a lleoliadau arbennig.

5. Ymgyrchu i hyfforddiant athrawon gynnwys oriau gorfodol i ddeall anghenion ac amodau cymhleth ein plant, megis Anhwylder Sbectrwm Awtistig ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd.

6. Ymgyrchu i hyfforddeion ac athrawon cymwys yng Nghymru ddeall a chael hyfforddiant parhaus yn yr anghenion cymhleth sy'n effeithio ar alluoedd ein plant i ddysgu a datblygu, gan gynnwys cyflyrau meddygol, iechyd meddwl, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Cysylltiadau'r wasg:

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.

e-bost: stuart.williams@neu.org.uk

Nodyn i olygyddion:

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.